Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Felinwnda
# Llanwnda
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL54 5UG

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 29/08/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ym mhentref gwledig Llanwnda, ar gyrion Caernarfon yng Ngwynedd. Mae’n gwasanaethu ardal cymharol freintiedig. Mae 29 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, sy’n cynnwys pump o oed meithrin. Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i’r sector uwchradd. Mae’r ysgol yn derbyn plant o’r holl ystod gallu. Ar hyn o bryd dau ddisgybl sydd wedi eu harenwi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Tua 8% o’r disgyblion presennol sydd â’r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim sy’n is na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru. Daw mwyafrif helaeth y disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mai 2006.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Felinwnda yw £5,276. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd ydy £7,732 a’r uchafswm yw £2,745. Mae Ysgol Gynradd Felinwnda yn 13eg allan o’r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd mewn telerau cyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol Ysgol Felinwnda yn dda oherwydd:

- bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu;
- bod ethos gartrefol o fewn yr ysgol sy'n hyrwyddo'r ymdeimlad o berthyn, parch at ei gilydd a chydraddoldeb;
- bod y disgyblion yn foesgar a chwrtais;
- bod rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn rhugl ac yn effeithiol y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth;
- bod yr ysgol yn cynllunio profiadau dysgu priodol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol; a
- bod safon yr addysgu yn gyffredinol dda mewn llawer o wersi.

Fodd bynnag:

- nid yw'r ysgol bob amser yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn caniatáu i bob disgybl gyrraedd ei botensial.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir y mae'n llwyddo i'w chyfleu yn effeithiol;
- pob aelod o staff yn gweithio fel tîm ac yn deall eu rôl wrth weithredu cynlluniau'r ysgol;
- yr ysgol yn gwybod yn dda am ei pherfformiad ei hun;
- ganddi gynlluniau datblygu o ansawdd da sy'n cynnwys blaenoriaethau priodol;
- partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn gryf ac yn cyfrannu'n effeithiol at wireddu nodau'r ysgol; ac
- arweinwyr a rheolwyr yn rheoli'r adnoddau a ddyrennir i'r ysgol yn effeithiol.

Fodd bynnag:

- nid yw rôl y llywodraethwyr yn ddigon canolog i'r weithdrefn hunan arfarnu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau ysgrifennu estynedig yng nghyfnod allweddol 2;

A2 sicrhau bod y ddarpariaeth yn caniatáu i bob disgybl gyrraedd ei botensial;

A3 fireinio'r dulliau cynllunio tymor byr er mwyn rhoi gwell ffocws ar ddatblygu'r medrau allweddol o fewn sesiynau;

A4 sicrhau gwell cysondeb yng ngweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu; a

A5 cryfhau rôl y llywodraethwyr yn y weithdrefn hunan arfarnu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn rhugl ac yn effeithiol ar bob math o achlysur y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd Cymraeg. Mae'r mwyafrif yn darllen eu gwaith eu hunain a'u llyfrau darllen i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol yn dechrau datblygu'n briodol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall disgyblion saith mlwydd oed ysgrifennu brawddegau lled synhwyrol i wahanol bwrpasau, gan ddangos peth gafael ar atalnodi sylfaenol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn medru siarad am eu gwaith â hyder cynyddol. Gall y mwyafrif fynegi barn mewn modd aeddfed, am wahanol faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'r mwyafrif yn darllen deunyddiau pwrpasol ar goedd yn lled ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhan fwyaf yn gallu ysgrifennu'n briodol yn eu geiriau eu hunain i ystod o bwrpasau yn y ddwy iaith. Maent yn atalnodi'n lled gywir ac yn trefnu eu gwaith mewn paragraffau. Fodd bynnag, nid oes digon o gynnydd yn y gwaith ysgrifennu rhydd ym Mlynyddoedd 5 a 6 o ran ystod ac ansawdd, ac mae safonau cyflwyniad a llawysgrifen yn anghyson.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da, ond nid yw disgyblion o allu uwch bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent. Nid yw'n bosib cymharu cyflawniad disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim gyda'r gweddill dros gyfnod gan nad oedd disgyblion felly mewn nifer o'r blynyddoedd dros y pum mlynedd ddiwethaf. Gan fod nifer y disgyblion mor fechan, nid yw'n synhwyrol cymharu cyflawniad y bechgyn gyda chyflawniad y merched.

Mae tueddiadau mewn cyflawniad disgyblion diwedd Cyfnod Sylfaen yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 mewn cyfuniad o'r Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn gyson uchel dros bedair blynedd ac yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r tuedd hefyd yn gyson uchel yn y canran o ddisgyblion a gyflawnodd lefel 2 neu uwch yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar wahân, gyda phob disgybl yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig bob blwyddyn ers pedair blynedd.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gydag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf dros pedair blynedd ym mhob pwnc craidd.

Mae tueddiadau mewn cyflawniad disgyblion diwedd cyfnod allweddol 2 yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn anwastad dros gyfnod o

bedair blynedd ac yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan yn 2011. Mae'r patrwm hefyd yn anwastad dros gyfnod ar gyfer y pynciau ar wahân. Yn 2011 cyflawnodd 100% o ddisgyblion yr ysgol y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg a Saesneg, ond roedd eu cyflawniad mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf dros bum mlynedd ym mhob pwnc craidd.

Mae'r canran sy'n cyrraedd lefelau'n uwch na'r disgwyl yn sylweddol is o gymharu â chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan dros gyfnod o bum mlynedd yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2.

**Lles: Da**

Mae safonau lles y disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol fel chwaraeon a gemau.

Mae ymddygiad yn dda. Nid yw'r ysgol wedi cael achos i eithrio unrhyw ddisgybl ers nifer o flynyddoedd. Mae'r disgyblion yn foesgar a chwrtais, yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, ac yn gweithio'n gydwybodol gyda'i gilydd. Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Maent yn ymateb yn dda i gymhelliant ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae canran presenoldeb dros y flwyddyn ddiwethaf ychydig dros 94.5% sy'n uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru gyfan. Mae prydlondeb yn dda.

Mae aelodau'r Cyngor Ysgol a'r Grŵp Ysgol Werdd yn frwdfrydig ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned yr ysgol.

Drwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o'u hardal a'r gymuned leol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu priodol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn cydweithio yn fwriadus i gynllunio rhaglenni gwaith manwl. Serch hynny, nid yw'r cynllunio yn adnabod yn ddigon cyson gyfleoedd i herio'r disgyblion mwy abl a dawnus.

Mae'r ddarpariaeth i sicrhau bod y disgyblion yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn gadarn ac yn amlygu'i hun yn dda ym mywyd dyddiol yr ysgol. Mae cyfleoedd i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth disgyblion wedi ei nodi'n briodol yn y cynlluniau tymor hir a chanolig. Serch hynny, nid ydynt wedi eu

hamlygu'n ddigon manwl yn y cynlluniau tymor byr. Ni ddarperir digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r angen i ofalu am yr amgylchedd a'r byd amrywiol a chynaliadwy y maent yn byw ynddo. Defnyddir addoli ar y cyd yn briodol i amlygu materion sy'n ymwneud â thegwch ac anghydraddoldeb.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig ei ddatblygu'n gadarn iawn ar hyd yr ysgol. Mae'r grwpiau ymyrraeth a sefydlwyd i godi safonau iaith disgyblion yn dechrau cael yr effaith briodol.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda mewn llawer o wersi. Mae perthynas waith effeithiol iawn yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ar draws yr ysgol.

Ymysg yr elfennau da yn yr addysgu, defnyddir ystod eang o strategaethau a chyflwyniadau bywiog, llawn brwdfrydedd. Mae'r cwestiynu'n bwrpasol ac yn dreiddgar er mwyn symud y dysgu ymlaen. Rhennir amcanion a meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion ac mae hyn yn meithrin yn effeithiol eu gallu i ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Yn y gwersi lle nad yw'r addysgu cystal mae'r amseriad ychydig yn araf ac nid yw'r tasgau bob amser yn ddigon heriol. Ar adegau, mae defnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu cyfleoedd i'r disgyblion mwyaf abl i ymestyn eu medrau ysgrifennu estynedig.

Mae pob un o'r staff addysgu, gan gynnwys y staff cymorth, yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn effeithiol iawn.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith ar draws yr ysgol. Fodd bynnag mae anghysondeb yn y gweithdrefnau rhwng y dosbarthiadau. Mae rhai agweddau da i'w gweld yn y marcio a cheir enghreifftiau o sylwadau sy'n dangos yn glir y ffordd ymlaen i ddisgyblion wella eu gwaith. Mae'r broses o osod targedau ar gyfer disgyblion unigol yn dechrau datblygu drwy'r ysgol.

Mae'r system tracio cynnydd yn effeithiol, ac mae gweithdrefnau lefelu a chymedroli gwaith y disgyblion dros amser yn gywir. Mae adroddiadau i rieni yn drylwyr ac yn bodloni'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Darpara'r ysgol wybodaeth gynhwysfawr i rieni am fywyd yr ysgol sy'n cynnwys cylchlythyru rheolaidd, prosbectws ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr.

Mae trefniadau sefydlu ar gyfer disgyblion newydd a disgyblion ag anghenion arbennig yn glir ac mae trefniadau da yn eu lle i drosglwyddo'r disgyblion hyn i addysg uwchradd.  Caiff ddarpariaeth drefnus ar gyfer lles a manteision byw'n iach ei hyrwyddo'n effeithiol.  Mae mentrau cenedlaethol fel y rhai ar gynhwysiad a chydraddoldeb yn cael eu hannog a'u cefnogi'n effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae systemau effeithiol ar gyfer adnabod disgyblion sydd ag angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith.  Mae'r ysgol yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer y disgyblion hyn.  Mae'r cymorth yn cael ei gydlynu'n drefnus ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol arbenigol.  Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n gyson am gynnydd eu plant ac fe gaiff y cynlluniau addysg unigol eu harfarnu a'u diweddaru'n rheolaidd.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae ethos cartrefol o fewn yr ysgol sy'n hyrwyddo'r ymdeimlad o berthyn, parch at ei gilydd a chydraddoldeb.  Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaethau'n dda ac mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd amrywiol er mwyn atgyfnerthu'r agwedd hon ar draws y cwricwlwm.  Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol ble caiff pob disgybl ei drin fel unigolyn.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau o ansawdd priodol sy'n cael eu defnyddio'n dda.  Mae'r adeilad yn diwallu anghenion disgyblion yn briodol ac mae safon uchel yr arddangosfeydd dosbarth yn helpu i greu amgylchedd dysgu symbylus a chyfoethog.  Datblygwyd ardal allanol y Cyfnod Sylfaen, gardd yr ysgol a'r cae chwarae yn lled ddiweddar er mwyn ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion weithio yn yr awyr agored.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun, o'r staff ac o'r disgyblion.  Mae ganddi weledigaeth glir ac mae'n llwyddo i gyfleu honno yn effeithiol.  Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gweithio fel rhan o dîm ac yn deall eu rôl wrth weithredu cynlluniau'r ysgol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau'n gydwybodol.  Yn ddiweddar, mae'r corff wedi derbyn achrediad Gwobr Efydd Llywodraethwyr Cymru.  Mae'r llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn gyson, yn trafod gyda'r athrawon, ac yn derbyn adroddiadau am ei pherfformiad cyn adrodd yn ôl yn ffurfiol i'r corff llawn.  Maent yn derbyn data'n gyson, ac wedi dechrau ei ddadansoddi gan ystyried unrhyw dueddiadau mewn perfformiad.  Er hynny, mae angen datblygu eu rôl ymhellach yn y gweithdrefnau hunan arfarnu.

Rhoddir sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol.  Sefydlwyd darpariaeth Y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008 yn llwyddiannus.  Mae'r Cyngor Ysgol ac egwyddorion Ysgolion Iach ac Ysgol Werdd wedi hen wreiddio yng ngweithgareddau'r ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol yn gwybod yn dda am ei pherfformiad ei hun trwy drefniadau sydd wedi eu sefydlu'n gadarn ers nifer o flynyddoedd. Mae gan reolwyr weithdrefn briodol sy'n rhoi sylw penodol i bob pwnc neu agwedd dros gyfnod o bedair blynedd gan ddilyn patrymlun penodol. Rhoddir ystyriaeth i ystod o wybodaeth sy'n cynnwys dadansoddi data ar safonau ac ystyried tueddiadau dros gyfnod. Rhoddir sylw cyson i dystiolaeth am ansawdd yr addysgu a'r dysgu drwy arsylwadau dosbarth a sefydlwyd trefniadau priodol i ganfod barn rhieni a disgyblion drwy holiaduron. Er hynny nid yw rôl y llywodraethwyr hyd yn hyn wedi ei ddatblygu'n llawn o fewn y broses. Mae'r pennaeth yn gwneud defnydd effeithiol o adroddiadau monitro'r awdurdod lleol.

Mae cyswllt priodol rhwng deilliannau'r weithdrefn hunan arfarnu, deilliannau rheoli perfformiad staff a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynlluniau datblygu blynyddol o ansawdd da ac yn cynnwys blaenoriaethau priodol sy'n nodi tasgau i'w cyflawni o fewn cyfnodau addas. Mae cyfrifoldebau am gydlynu'r strategaethau a nodir wedi eu dyrannu'n briodol i wahanol aelodau staff ac wedi arwain at welliannau penodol mewn safonau.

Mae'r pennaeth yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r staff ddatblygu'n broffesiynol. Mae'r gweithdrefnau'n cynnwys cylch gwerthuso sy'n arwain at osod nodau cytûn ac yn cynnwys anghenion datblygu unigol ynghyd â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r ysgol yn cydweithio ag ysgolion cyfagos ac wedi datblygu rhwydweithiau effeithiol o arfer proffesiynol. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth mewn pynciau unigol a hefyd mewn cynllunio ac asesu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn gryf ac yn cyfrannu'n effeithiol at wireddu amcanion yr ysgol. Mae'r ysgol yn chwarae rhan flaenllaw o fewn y gymuned leol. Mae disgyblion yn ymweld yn gyson â gwahanol fannau o fewn y pentref, ac yn aml yn croesawu unigolion o'r gymuned i siarad â nhw yn yr ysgol. Mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi eu profiadau dysgu a'u hymwybyddiaeth o'u hardal leol.

Mae cyswllt cryf rhwng yr ysgol, yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth ymgynghorol, sydd wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

Mae cyswllt agos rhwng yr ysgol â'r Cylch Meithrin a gynhelir yn y ganolfan gyfagos, sy'n hwyluso trefniadau derbyn disgyblion. Yn yr un modd, mae trefniadau trosglwyddo'r disgyblion i'r ysgolion uwchradd yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion cynradd eraill yr ardal ynghyd â'r ysgolion uwchradd er mwyn cynllunio adnoddau, sicrhau ansawdd asesiadau o waith disgyblion a rhannu arferion da.

Mae cysylltiadau cryf gyda cholegau addysg bellach, gyda'r ysgol yn croesawu myfyrwyr yn rheolaidd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r adnoddau a ddyrennir i'r ysgol yn dda, gan sicrhau bod trefniadau staffio priodol mewn lle i addysgu'r cwricwlwm. Mae cysylltiad penodol rhwng blaenoriaethau'r ysgol a phenderfyniadau gwariant. Mae prosesau monitro'r gyllideb yn effeithiol. Er fod dros 5% o'r arian a ddyrennir i'r ysgol yn flynyddol yn weddill dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cynlluniau bwriadus mewn lle ar gyfer ei wario'n effeithlon.

Mae trefniadau effeithiol mewn lle ar gyfer gwerthuso a rheoli perfformiad yr holl staff. Gwneir defnydd effeithiol o'r amser cynllunio, paratoi ac asesu drwy ddefnyddio athrawon arbenigol cerddoriaeth, addysg gorfforol a chelf, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau yn y meysydd hyn. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol iawn o gynorthwywyr dosbarth ac mae eu cyfraniad i addysg y disgyblion yn werthfawr iawn.

O ystyried deilliannau disgyblion a'r defnydd a wneir o'r cyllid, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae’r tueddiadau yn nata perfformiad yr ysgol yn annibynadwy gan fod nifer y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn fechan iawn.

Mae tueddiadau mewn cyflawniad disgyblion diwedd Cyfnod Sylfaen yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy’n cyflawni lefel 2 mewn cyfuniad o’r Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn gyson uchel dros bedair blynedd ac yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan. Mae’r tuedd hefyd yn gyson uchel yn y canran o ddisgyblion a gyflawnodd lefel 2 neu uwch yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar wahân, gyda phob disgybl yn cyflawni’r lefel ddisgwyliedig bob blwyddyn ers pedair blynedd. Mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel yn uwch na’r disgwyl (lefel 3) yn anghyson dros y pedair blynedd ddiwethaf yn y Gymraeg, ac yn gyffredinol is na chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan. Mae’r canran a gyflawnodd yn uwch na’r disgwyl ym mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn sylweddol is na chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan bob blwyddyn ers pedair blynedd. Eithriad i hyn yw gwyddoniaeth yn 2011 pan oedd yn uwch na chyfartaleddau’r teulu a Chymru gyfan.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gydag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf dros pedair blynedd ym mhob pwnc craidd.

Mae tueddiadau mewn cyflawniad disgyblion diwedd cyfnod allweddol 2 yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy’n cyrraedd lefel 4 mewn cyfuniad o’r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn anwastad dros gyfnod o bedair blynedd ac yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan yn 2011. Mae’r patrwm hefyd yn anwastad dros gyfnod ar gyfer y pynciau ar wahân. Yn 2011 cyflawnodd 100% o ddisgyblion yr ysgol y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg a Saesneg, ond roedd eu cyflawniad mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn sylweddol is na chyfartaleddau’r teulu a Chymru gyfan. Mae’r canran sy’n cyrraedd lefel yn uwch na’r disgwyl (lefel 5) yn sylweddol is o gymharu â chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan dros gyfnod o bum mlynedd.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf dros bum mlynedd ym mhob pwnc craidd.

Nid yw’n bosib cymharu cyflawniad disgyblion sydd â’r hawl i ginio am ddim gyda’r gweddill dros gyfnod gan nad oes disgyblion felly mewn nifer o’r blynyddoedd dros y pum mlynedd ddiwethaf. Gan fod y nifer o ddisgyblion mor fechan, nid yw’n deg cymharu cyflawniad y bechgyn gyda’r merched. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol ym mhob blwyddyn ysgol.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i holiaduron y disgyblion**

Mae'r naw ymateb a gafwyd gan y disgyblion yn gadarnhaol iawn.

Mae pob un o'r farn:

- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach;
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol iddyn nhw gael ymarfer corf yn rheolaidd;
- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd;
- bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith yn yr ysgol;
- bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddyn nhw wneud eu gwaith; a
- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae'r rhan fwyaf o'r farn:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio;
- eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol; a
- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

Er fod nifer yr ymatebion yn fechan iawn, mae ymatebion disgyblion Ysgol Felinwnda yn cymharu'n ffafriol gydag ymatebion cyfartalog disgyblion ar draws Cymru ym mwyafrif y datganiadau.

**Ymateb i holiaduron y rhieni**

O'r 11 ymateb a gafwyd oddi wrth rieni, mae pob un o'r farn:

- eu bod yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol;
- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol hon;
- bod eu plentyn wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuon nhw yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed ac gwneud ei orau;
- bod gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;

- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag  unrhyw anghenion unigol penodol;
- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn;
- bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- bod yn deall y drefn ar gyfer delio â chwynion;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb;
- bod eu plentyn wedi ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r farn:

- y caiff eu plentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd; a
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau ar gael.

Mae ymatebion rhieni Ysgol Felinwnda yn cymharu'n ffafriol gydag ymatebion cyfartalog rhieni ar draws Cymru ym mhob datganiad ond dau.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Carolyn Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Carys Thomas (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.